

*Future Directions* gan Gavin Porter,
Music Theatre Wales

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Cyngor Celfyddydau Cymru

## Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2024-2028

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Rhagair

Mae cymdeithas hael, deg a goddefgar yn gynhwysol wrth reddf. Mae'n gwerthfawrogi a pharchu creadigrwydd ei holl ddinasyddion. Os ydym am Gymru sy'n deg, llewyrchus a hyderus ac sy'n gwella ansawdd bywyd pobl ym mhob un o'i chymunedau, mae'n rhaid inni wneud y dewisiadau i'w galluogi i ddigwydd. Dyma beth mae'r Amcanion Strategol yn y ddogfen yn ceisio gwneud. Mae amrywiaeth yn cryfhau a bywiogi'r celfyddydau.

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn nodi cyfrifoldebau cyfreithiol penodol i sector cyhoeddus Cymru i gefnogi a datblygu ei waith ym maes cydraddoldeb. Ond i Gyngor Celfyddydau Cymru mae adrodd yn fwy na gofyniad cyfreithiol, mae'n hanfodol i gyflawni ein blaenoriaethau craidd. Mae'r blaenoriaethau wedi'u nodi yn ein cynllun strategol, Mwy na'r Celfyddydau, ac maent yn ganolog i'n Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad a ddatblygwyd ac a gyhoeddwyd mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru yn 2022.

Ein gweledigaeth yw Cymru greadigol lle mae'r celfyddydau wrth wraidd bywyd a lles y genedl gan wneud ein gwlad yn lle cyffrous a bywiog i fyw a gweithio ynddi ac ymweld â hi. Mae hyn yn golygu cydnabod hawl ddiwylliannol ac anghenion creadigol pob un unigolyn a chymuned ledled Cymru.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 yn nodi'r camau yr oeddem yn bwriadu eu cymryd i sbarduno newid a mynd i'r afael â'r rhwystrau a oedd wedi atal yn gyson bobl fyddar ac anabl a phobl o gefndiroedd diwylliannol ac ethnig amrywiol rhag cymryd rhan yn y celfyddydau fel artistiaid, cyfranogwyr a phenderfynwyr. Ar draws ein maes gweithio roeddem wedi methu'n gyson â darparu cefnogaeth i gynyddu'r nifer y bobl â nodweddion gwarchodedig ac o gefndiroedd amrywiol sy'n gweithio yn y celfyddydau a chael arian i ddatblygu eu gwaith ar eu telerau eu hunain.

Yn nwy flynedd gyntaf y cynllun (Mawrth 2020) roedd y pandemig byd-eang wedi'n taro'n frawychus. Mewn un noson, ataliodd y pandemig bob gweithgarwch celfyddydol a newid yr amgylchiadau byw a gweithio i bawb. Daeth sector y celfyddydau a diwylliant i ben. Parhaodd effaith hynny'n hir i mewn i 2020/21 ac roedd olion o hyd i'w gweld yn 2021/22 hefyd.

Wrth lunio ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-28 rydym yn cydnabod bod llawer i'w wneud i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a'r rhwystrau yr oeddem wedi'u nodi yn 2020, er bod tystiolaeth yn dangos bod cynnydd wedi'i wneud. Roeddem wedi colli momentwm yn ystod dwy flynedd y pandemig ac o ganlyniad mae ein Hamcanion Cydraddoldeb yn aros i raddau helaeth yr un fath.

Mae ein hymrwymiad i barhau â phroses o newid yn aros yr un mor gryf ag yr oedd yn ein datganiad 'Mae Bywydau Du o Bwys' ac yn ein cefnogaeth i'r Saith Egwyddor Gynhwysol ar gyfer y Celfyddydau sydd wedi dod allan o'r ymgyrch 'Ni fydd Modd ein Dileu'.

Rydym yn cryfhau'r ymrwymiad ymhellach wrth inni alinio ein gwaith ag uchelgais a nodau strategaeth ddiwylliant Llywodraeth Cymru a chyflawni yn ôl disgwyliadau Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol a Chynllun Gweithredu LHDTC+.

Bydd ein dull o weithredu'r Cynllun yn aros yn un o beidio â goddef hiliaeth ac ableiddiaeth a gweithio i sicrhau bod pobl o'r cymunedau felly a phawb sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol a'r rhai â nodweddion gwarchodedig, yn cael eu cynrychioli'n llawn yn weithwyr, penderfynwyr, ymwelwyr, crewyr, cyfranogwyr ac aelodau o'r gynulleidfa.



*Ye Olde Group Chat*, Rosa Johan-Uddoh
(Llun: Simon Ayre ar gyfer Chapter)

| Amcanion tymor hir | Gweithrediadau | Pam mae gennym yr amcanion | Monitro/Gwerthuso | Pwy sy'n gyfrifol? |
|---|---|---|---|---|
| 1. Byddwn yn mynd ati i gynnwys cymunedau a rhanddeiliaid amrywiol yn ein holl waith a gweithio i ddileu pob math o wahaniaethu ar sail nodweddion gwarchodedig.<br><br>Bydd democratiaeth ddiwylliannol wrth wraidd ein gwaith gan gynnwys sut rydym yn mynd ati i ymgysylltu, ymgynghori a rhannu gwybodaeth â'n partneriaid, ein rhanddeiliaid, y sector a chymunedau. | Cynnwys camau am gyfathrebu a brandio, datblygu a monitro ein strategaeth gorfforaethol a'n cynllun blynyddol. | Yn ganolog i'n gwaith yn y dyfodol fydd gweithio ochr yn ochr ag artistiaid, partneriaid a chymunedau a chael ein llywio a'u herio ganddynt. Rhaid hefyd fod yn agored a thryloyw wrth gyfathrebu pan ydym yn llwyddo neu'n methu a'r heriau sy'n ein hwynebu. | Byddwn yn casglu a choladu gwybodaeth am drafodaethau sydd wedi digwydd a'r newidiadau sydd wedi dod o'r trafodaethau.<br><br>Byddwn yn adrodd ar effaith prosiectau a digwyddiadau penodol a'u gwerthuso gan ganolbwyntio ar sut maent wedi dylanwadu ar newid polisïau, prosesau a chyflawniadau.<br><br>Byddwn yn adrodd ar gynnydd a newid sy'n dod o weithio mewn partneriaeth â sefydliadau penodol a'u gwerthuso gan fanylu ar nodau ac amcanion a'r effaith ar ein gwaith. | Y Tîm Arwain Gweithredol sy'n gyfrifol am weithredu'r amcan. Bydd y Tîm yn ei dro'n atebol i Bwyllgor y Cyngor a bydd yn adrodd ar gynnydd i'r Cyngor. |
| 2. Datblygu gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru drwy gynyddu nifer y bobl â nodweddion gwarchodedig sy'n gweithio yn y celfyddydau ac sy'n llywodraethu ac arwain sefydliadau celfyddydol a Chyngor y Celfyddydau. | Cynnwys camau gweithredu am weithio i ddileu bylchau cyflog ar draws sector y celfyddydau, sicrhau cyflog teg a chyfartal i bob artist sy'n gweithio yng Nghymru.<br><br>Ymgorffori cydraddoldeb mewn caffael a chomisiynu.<br><br>Hyfforddiant, datblygiad a llwybrau gyrfa.<br><br>Parhau i adolygu a monitro ein dull o recriwtio a datblygu a hyfforddi staff. | Rydym yn methu â gwireddu newid sylweddol o ran amrywio gweithlu a byrddau rheoli'r sefydliadau yr ydym yn eu hariannu ac yng Nghyngor y Celfyddydau.<br><br>Mae tystiolaeth o bob rhan o sector y celfyddydau a'r sector cyhoeddus yn dangos bod cyflog teg a chydraddoldeb cyflog yn parhau i fod yn broblem. | Byddwn yn casglu a dadansoddi data gan ein sefydliadau sy'n cael arian amlflwyddyn a ffurflenni cais a rhai diweddu gan ymgeiswyr y Loteri (unigolion a sefydliadau).<br><br>Byddwn yn adolygu bob blwyddyn y cynnydd gan ein sefydliadau sy'n cael arian amlflwyddyn drwy'r Cytundebau Ariannu a'u cynlluniau cydraddoldeb strategol a phryd y byddant yn dod i'r fei. Bydd perfformio'n ôl eu targedau yn llywio'r penderfyniadau am eu hariannu wedyn.<br><br>Byddwn yn casglu a dadansoddi data am ein prosesau recriwtio, datblygiad proffesiynol a dilyniant. Byddwn yn adrodd ar y data i'n Pwyllgor Adnoddau Dynol a'n grŵp Monitro Cydraddoldeb a fydd yn adolygu'r data.<br><br>Byddwn yn llunio adroddiadau monitro am ein holl gaffael.<br><br>Bydd yn cynnwys adroddiadau ar gyflwr cyflog ar draws y sector, yn enwedig mewn perthynas â gweithwyr llawrydd. | Y Tîm Arwain Gweithredol sy'n gyfrifol am weithredu'r amcan. Bydd y Tîm yn ei dro'n atebol i Bwyllgor y Cyngor a bydd yn adrodd ar gynnydd i'r Cyngor. |

| Amcanion tymor hir | Gweithrediadau | Pam mae gennym yr amcanion | Monitro/Gwerthuso | Pwy sy’n gyfrifol? |
|---|---|---|---|---|
| **3. Cynyddu nifer yr artistiaid a sefydliadau celfyddydol amrywiol sy’n cael mynediad at arian a chymorth i greu a chyflwyno eu celf ar eu telerau eu hunain.** | Cynnwys camau gweithredu sy’n ymwneud â gweithredu ac effaith cynlluniau ariannu’r Loteri ac unrhyw raglenni sydd wedi’u targedu fel Camau Creadigol a Safbwyntiau. | Mae ein tystiolaeth yn nodi bod cynnydd wedi’i wneud o ran gwella mynediad i raglenni’r Loteri o ran prosesau a’r grantiau sy’n digwydd. Ond mae angen cymryd camau pellach i sicrhau mynediad cyfartal i bob artist sydd â nodweddion gwarchodedig. | Byddwn yn adolygu ceisiadau a grantiau o ran ein rhaglenni a’n prosiectau strategol sy’n cael arian gan y Loteri ac adrodd arnynt.<br><br>Bydd yn cynnwys casglu data mewn perthynas â phobl sy’n arwain a phrofi gweithgarwch celfyddydol. Byddwn hefyd yn dechrau defnyddio ein teclyn gwerthuso newydd, Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau, i fesur effaith prosiectau penodol a’n harian ar ymgysylltu ag artistiaid a chymunedau a grwpiau â nodweddion gwarchodedig. | Y Tîm Arwain Gweithredol sy’n gyfrifol am weithredu’r amcan. Bydd y Tîm yn ei dro’n atebol i Bwyllgor y Cyngor a bydd yn adrodd ar gynnydd i’r Cyngor. |
| **4. Cynyddu amrywiaeth y rhai sy’n ymgysylltu â’r celfyddydau fel aelodau o’r gynulleidfa a chyfranogwyr creadigol.** | Cynnwys camau penodol am weithredu ac effaith ein cynlluniau ariannu’r Loteri, ein rhaglenni sydd wedi’u targedu a gwaith ein sefydliadau sy’n cael arian amlflwyddyn. | Mae ein tystiolaeth yn nodi, er bod cynnydd wedi’i wneud mewn rhai meysydd, fod celfyddydau Cymru yn dal i fethu â chyrraedd rhannau helaeth o’n cymunedau – mewn termau cymdeithasol a daearyddol. | Byddwn yn casglu a dadansoddi data gan ein sefydliadau sy’n cael arian amlflwyddyn a ffurflenni cais a rhai diweddu gan ymgeiswyr y Loteri (unigolion a sefydliadau).<br><br>Byddwn yn adolygu bob blwyddyn y cynnydd gan ein sefydliadau sy’n cael arian amlflwyddyn drwy’r Cytundebau Ariannu a’u cynlluniau cydraddoldeb strategol a phryd y byddant yn dod i’r fei.<br><br>Bydd hyn yn cynnwys casglu data mewn perthynas â phobl sy’n arwain a phrofi gweithgarwch celfyddydol a gwerthuso effaith prosiectau penodol ar ymgysylltu ag artistiaid a chymunedau a grwpiau â nodweddion gwarchodedig.<br><br>Byddwn yn dechrau gweithredu a mabwysiadu ein teclyn gwerthuso newydd, Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau, i fesur effaith ein gwaith.<br><br>Byddwn yn parhau’n rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru sy’n cynnwys cwestiynau am y celfyddydau a diwylliant. | Y Tîm Arwain Gweithredol sy’n gyfrifol am weithredu’r amcan. Bydd y Tîm yn ei dro’n atebol i Bwyllgor y Cyngor a bydd yn adrodd ar gynnydd i’r Cyngor. |

# Rhoi ar waith y 5 Ffordd o Weithio
# Deddf Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru)

| Ffyrdd o weithio | Sut mae hyn wedi digwydd? |
|---|---|
| Atal | Sail yr amcanion yw’r ddealltwriaeth o anghydraddoldeb a ddaeth drwy ‘A yw Cymru’n decach?’ – Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol sef adolygiad gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol o ddyletswydd gydraddoldeb y sector cyhoeddus a gwybodaeth o’n hadroddiadau blynyddol cydraddoldeb 2020-2024. |
| Hirdymor | Amcanion hirdymor yw’r rhai lefel uchel a fydd yn parhau y tu hwnt i oes pedair blynedd y cynllun cydraddoldeb strategol. Mae’r cynllun yn cydnabod bod ymrwymiad hirdymor i gyflawni a darparu adnoddau yn hanfodol er mwyn gwireddu’r newid sylweddol sydd ei angen. |
| Cydweithio | Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â grŵp o 11 o gyrff cyhoeddus sy’n unfarn gefnogol i’r amcanion ar y cyd ac sydd wedi ymrwymo i gydweithio i’w cyflawni. Mae’r cyrff partner wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy’n nodi eu hymrwymiad i gydweithio. Drwy’r bartneriaeth byddwn yn cefnogi ein gilydd a dysgu oddi wrth ein gilydd ac yn dal ein gilydd yn atebol. |
| Integreiddio | Sail yr amcanion lefel uchel yw’r ddealltwriaeth o anghydraddoldeb. Maent yn cyd-fynd â nodau cydraddoldeb hirdymor Llywodraeth Cymru ac maent yn cyfrannu at Gymru sy’n fwy Cyfartal (Deddf Cenedlaethau’r Dyfodol) a chymdeithas decach (Deddf Cydraddoldeb 2010). Mae rhoi ar waith y pum ffordd o weithio wedi cefnogi integreiddiad ar draws dyletswyddau. |
| Cynnwys | Roedd sgyrsiau â rhanddeiliaid a derbynwyr gwasanaethau cyhoeddus yn llywio datblygiad y cynllun yma a’r un ar y cyd â’r cyrff cyhoeddus. Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â phobl a chymunedau i ddatblygu’r cynllun ymhellach a chynllunio prosiectau, rhaglenni a gwasanaethau sy’n gwireddu ein hamcanion. |